The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

Newid
Academi Ysgogi Newid Cenedlaethau'r Dyfodol
Future Generations Changemaker Academy

# Adroddiad gwerthuso

**Dr Donna Smith**

Coleg Penybont Bridgend College

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Unloc

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cefndir yr awdur | 3 |
| Ynghylch y partneriaid | 3 |
| Cydnabyddiaethau | 5 |
| Rhagair | 6 |
| Crynodeb gweithredol | 8 |
| Cyflwyniad | 9 |
| Cefndir y cynllun peilot | 10 |
| Cefndir y garfan | 17 |
| Prosiectau myfyrwyr | 19 |
| Canfyddiadau: arolygon myfyrwyr | 25 |
| Canfyddiadau: grŵp ffocws myfyrwyr | 30 |
| Canfyddiadau: adborth gan bartneriaid | 36 |
| Casgliadau ac argymhellion | 39 |
| Cyfeiriadau | 42 |

# Cefndir yr awdur

Mae Dr Donna Smith yn Uwch Ddarlithydd mewn Gwleidyddiaeth yn y Brifysgol Agored, yn Brif Gymrawd yr Academi Addysg Uwch, Cymrawd y Ganolfan ar gyfer Addysg Ar-lein ac o Bell, ac Ymddiriedolwr ac Ysgrifennydd Anrhydeddus y Gymdeithas Astudiaethau Gwleidyddol. Mae ei diddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar ddinasyddiaeth weithredol, gwleidyddiaeth a'r cyfryngau, a dysgu ac addysgu.

Am ragor o wybodaeth ynghylch Donna, ewch draw i https://profiles.open.ac.uk/donna-smith

# Ynghylch y partneriaid

## Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Comisiynydd Annibynnol Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn rôl unigryw, wedi'i sefydlu gan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) arloesol, i weithredu fel llais i bobl sydd heb eu geni eto, gan sicrhau bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gwneud penderfyniadau hirdymor, cynaliadwy sydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol, nid dim ond y rhai presennol, drwy hyrwyddo llesiant, mynd i'r afael â newid hinsawdd, a meithrin ffocws ar iechyd y gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd. Derek Walker yw Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

www.futuregenerations.wales

## Coleg Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Coleg Pen-y-bont ar Ogwr yn Goleg Addysg Bellach (AB) sy'n cefnogi dros 13,000 o ddysgwyr ar draws addysg bellach ac uwch, prentisiaethau rhan amser a dysgu cymunedol sy'n cyflogi dros 600 o staff. Mae'r Coleg yn gweithredu ar draws gyngor bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr, ynghyd â'i his-gwmnïau, Engage Training a Choleg Bevan.

www.bridgend.ac.uk

## Y Brifysgol Agored

Y Brifysgol Agored yw'r darparwr addysg uwch israddedig rhan-amser mwyaf yng Nghymru. Mae'n arweinydd byd-eang mewn darparu cyfleoedd dysgu hyblyg arloesol ar lefel addysg uwch, gan gynnwys cyrsiau israddedig, cyrsiau ôl-raddedig a chyrsiau mynediad.

Mae mwy na 16,000 o fyfyrwyr, o gymunedau o bob cwr o Gymru, yn astudio gyda'r Brifysgol Agored ar hyn o bryd, ac mae dros ddau draean ohonynt mewn cyflogaeth yn ystod eu hastudiaethau. Mae'r Brifysgol Agored yn gweithio gyda busnesau, elusennau, undebau a chyrff cyhoeddus yng Nghymru i'w helpu i ddatblygu eu staff, ac i annog rhagor o bobl i ymgymryd â dysgu gydol oes, beth bynnag fo'u cefndir. Mae gan y Brifysgol Agored fyfyrwyr ym mhob un etholaeth yng Nghymru.

www.open.ac.uk/cymru

## Unloc

Mae Unloc yn sefydliad addysg arweiniol nid-er-elw a sefydlwyd yn 2013, gan arweinwyr ifanc sydd wedi ennill sawl gwobr a'r eiriolwyr Hayden Taylor a Ben Dowling. Mae Unloc yn helpu ysgolion, colegau, sefydliadau a busnesau ac yn ysbrydoli a grymuso pobl ifanc i fod yn ysgogwyr newid drwy raglenni arloesol sydd wedi'u teilwra'n arbennig o fewn entrepreneuriaeth, arweinyddiaeth, llais yr ifanc a gyrfaoedd a chyflogadwyedd. Mae Unloc yn gweithio tuag at ei genhadaeth o ddarparu rhaglenni addysgol ysbrydoledig mewn rhwydwaith cynyddol o ysgolion, colegau a phrifysgolion.

www.unloc.org.uk

# Cydnabyddiaethau[1]

Hoffwn ddiolch i fyfyrwyr Coleg Pen-y-bont ar Ogwr wnaeth gymryd rhan yn y cynllun peilot. Mae eich gwaith caled a'ch syniadau ar gyfer newid gwleidyddol a chymdeithasol yn ysbrydoledig.

Diolch i staff Coleg Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer eich sefydliad a lletygarwch.

Diolch hefyd i'r tîm yn y Brifysgol Agored yng Nghymru arm eich cymorth o ddydd i ddydd yn cynnal yr ymchwil a'r gwerthuso.

1 Cafodd yr adroddiad hwn ei baratoi gyda chymorth deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (GenAI), Microsoft Copilot, er mwyn cefnogi dadansoddi data meintiol ac ansoddol a drafftio. Cafodd yr holl ddehongliadau, casgliadau a geirfa derfynol eu hadolygu a'u cymeradwyo gan yr awdur.

# Rhagair



Fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, fy rôl yw hyrwyddo diddordebau'r rhai sydd heb eu geni eto ac i gefnogi newid sylfaenol yn y ffordd rydym yn meddwl, cynllunio a gweithredu dros les hirdymor Cymru. Mae Newid - Academi Ysgogi Newid Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynrychioli cyfraniad pwysig ac amserol i'r genhadaeth honno. Wedi'i gwreiddio yng ngwerthoedd a dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), mae'r rhaglen yn dangos yr hyn sy'n bosib pan rydym yn buddsoddi ymddiriedaeth ac adnoddau mewn pobl ifanc fel arweinwyr newid, nid dim ond rhai sy'n elwa ohono.

O'r dechrau'n deg, bwriad Newid oedd ymateb i fwlch amlwg: y cyfleoedd cyfyngedig i nifer o ddysgwyr Addysg Bellach yng Nghymru i ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon gyda datblygu arweinyddiaeth, bywyd dinesig a chamau gweithredu sy'n berthnasol i bolisi. Drwy gydweithrediad cryf rhwng Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, y Brifysgol Agored yng Nghymru, Unloc a fy swyddfa i, mae'r Academi wedi creu llwybr cynhwysol, credadwy sy'n galluogi pobl ifanc 16–25 oed i ddatblygu'r sgiliau, yr hyder a'r ymwybyddiaeth feirniadol sydd ei angen er mwyn dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n llunio eu bywydau a'u cymunedau. Mae'r ffocws ar gyfiawnder cymdeithasol, ysgogi newid, a chamau gweithredu sy'n cael eu harwain gan ieuenctid yn alinio'n agos gyda'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf, yn arbennig felly atal, ymwneud a chydweithredu.

Mae'r gwerthusiad hwn yn rhoi cyfrif gonest sy'n seiliedig ar dystiolaetho'r flwyddyn beilot; beth wnaeth weithio'n dda, ble mae'r angen am ddysgu'n parhau, a sut mae'r Academi eisoes yn dechrau cyfrannu at linell gyflenwi fwy amrywiol a chydnerth o arweinwyr y dyfodol ac ysgogwyr newid yng Nghymru. Yn bwysig iawn, mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu lleisiau a phrofiadau bywyd y cyfranogwyr eu hunain. Mae eu sylwadau craff yn atgyfnerthu gwirionedd creiddiol dull Cenedlaethau'r Dyfodol: bod ymwneud ystyrlon yn arwain at well deilliannau, datrysiadau mwy cydnerth ac ymdeimlad cryfach o gyfrifoldeb a rennir ar gyfer ein dyfodol ar y cyd.

Wrth i'r rhaglen symud y tu hwnt i'w chyfnod cynllun peilot, mae'r adroddiad hwn yn cynnig arweiniad eglur er mwyn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor. Rwyf wedi fy nghalonogi gan uchelgais Newid a'r dysgu a ddelir yma, ac edrychaf ymlaen at weld yr Academi'n tyfu fel platfform arhosol ar gyfer ysgogwyr newid ifanc. Drwy barhau

i feithrin eu syniadau a'u gallu i weithredu, rydym yn cymryd cam hanfodol tuag at Gymru fwy gwyrdd, mwy teg a mwy ffyniannus – un sydd wedi'i llunio ar y cyd gyda chenedlaethau sydd i ddod, nid dim ond ar eu cyfer.

**Derek Walker**
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

# Crynodeb gweithredol

Roedd y cynllun peilot Newid - Academi Ysgogwyr Newid Cenedlaethau'r Dyfodol (2025-2026) yn fenter gydweithredol rhwng Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, y Brifysgol Agored yng Nghymru ac Unloc. Ei fwriad oedd mynd i'r afael â bwlch mewn ymgysylltiad gwleidyddol/dinesig a chyfleoedd i ysgogi newid ar gyfer dysgwyr Addysg Bellach 16-25 oed, yn unol â dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a chenhadaeth pob sefydliad partner.

Bu i'r cynllun peilot fabwysiadu model dysgu cyfunol, gan gyfuno bŵtcamps wyneb yn wyneb, sesiynau ar-lein, siaradwyr gwadd, a gwaith prosiect annibynnol. Cafodd cyfranogwyr eu cefnogi i ddatblygu a darparu eu prosiectau newid eu hunain oedd yn mynd i'r afael â phroblemau oedd o ddiddorddeb iddynt hwy, yn bennaf ar lefel (coleg) lleol. Defnyddiwyd dull gwerthuso dulliau cymysg, gan gynnwys arsylwadau, arolygon, grŵp ffocws ac adfyfyrion partner.

Mae canfyddiadau'n dangos bod yr Academi wedi cyflawni deilliannau cryf, positif ar draws sawl maes. Adroddodd cyfranogwyr gynnydd sylweddol mewn gwybodaeth ynghylch Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, ochr yn ochr â gwelliannau mewn sgiliau arweinyddiaeth ac ysgogi newid. Cynyddodd lefelau hyder ar draws pob parth. Yn hollbwysig, dangosodd cyfranogwyr fwy o ddealltwriaeth ynghylch rhoi newid ar waith, a hyder wrth wneud hynny, yn arbennig felly ar lefel lleol.

Mae canfyddiadau ansoddol yn atgyfnerthu'r deilliannau yma. Roedd cyfranogwyr yn gwerthfawrogi amrywiaeth y garfan, y sesiynau dilynol strwythuredig, siaradwyr gwadd o safon uchel a chefnogaeth gref gan staff. Adroddodd llawer ynghylch cynnydd mewn hyder, gwelliant mewn siarad cyhoeddus, mwy o ymwybyddiaeth wleidyddol, a mwy o allu i ddechrau a chyflawni prosiectau. Adroddodd yr holl gyfranogwyr yn y grŵp ffocws eu bod yn teimlo'n fwy effeithiol fel ysgogwyr newid.

Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad hefyd yn adnabod prif feysydd y dylid eu datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen am gyfathrebu cynnar, mwy eglur ynghylch disgwyliadau'r rhaglen a phrosiectau newid, gwell cydbwysedd rhwng darpariaeth ar-lein ac wyneb yn wyneb, integreiddiad addysg wleidyddol a democrataidd cryfach, a chynnydd mewn ymwybyddiaeth fewnol ymysg staff dysgu. Roedd yr ymgysylltiad gyda gwleidyddiaeth ar lefel genedlaethol yn parhau i fod yn gymharol gyfyngedig.

O safbwynt sefydliadol, roedd partneriaid yn gweld yr Academi fel cysyniad cryf y gellid ei ddatblygu gydag aliniad eglur at flaenoriaethau polisi a nodau cymdeithasol hirdymor. Roedd darpariaeth wyneb yn wyneb a siaradwyr gwadd yn creu traweffaith arbennig, er bod ymgysylltu ar-lein ac amseru'r rhaglen angen eu mireinio.

Gyda'i gilydd, mae'r cynllun peilot yn arddangos bod gan y model Academi Ysgogwyr Newid botensial sylweddol i rymuso pobl ifanc fel rhai sy'n gweithredu dros newid ar hyn o bryd, sy'n cefnogi ymgysylltu dinesig, ac sy'n cyfrannu at Gymru fwy cynhwysol a chynaliadwy. Mae'r canfyddiadau'n darparu sylfaen gref ar gyfer mireinio a datblygu'r rhaglen mewn adroddiadau yn y dyfodol.










Mae'r Brifysgol Agored yn cefnogi'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

# Cyflwyniad

Cafodd cynllun peilot Newid - Academi Ysgogwyr Newid Cenedlaethau'r Dyfodol ei lansio ar ddiwedd 2025 fel cydweithrediad cyffrous rhwng Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, y Brifysgol Agored yng Nghymru ac Unloc. Wedi'i wreiddio'n gadarn yn nyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), bwriad y prosiect oedd grymuso pobl ifanc 16-25 oed ar draws Cymru i arwain newid ystyrlon, strwythurol o fewn eu cymunedau. Mae hefyd yn alinio gyda fframwaith rheoleidd-dra Medr, yn arbennig felly'r amgylchiadau o safbwynt cyfle cyfartal ac ymgysylltiad y dysgwyr.

Mae'r adroddiad gwerthuso hwn yn archwilio datblygiad, gweithrediad a thraweffaith cynnar y flwyddyn cynllun peilot, gan dynnu ar dystiolaeth a gasglwyd drwy gydol y rhaglen er mwyn asesu ei heffeithiolrwydd a'i photensial yn y dyfodol.

Bwriad yr Academi oedd mynd i'r afael â bwlch sydd wedi'i adnabod o ran cyfleoedd i ddysgwyr Addysg Bellach ymgysylltu gyda chyfranogiad dinesig a chamau gweithredu cymdeithasol. Drwy ddarparu llwybr strwythuredig sy'n cysylltu mentrau arweinyddiaeth ar lefel ysgol gyda'r Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol presennol, nod Newid oedd meithrin capasiti pobl ifanc i ddylanwadu ar strwythurau gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol. Yn greiddiol i'r genhadaeth hon oedd model dysgu cyfunol sy'n cwmpasu hyfforddiant arweinyddiaeth, meddwl yn feirniadol, addysg cyfiawnder cymdeithasol a chyflawni prosiectau ysgogi newid sy'n cael eu harwain gan ieuenctid ac sy'n canolbwyntio ar heriau cymdeithasol sy'n wynebu cymunedau Cymru.

Yn ganolog i ethos Newid mae ymrwymiad i gynhwysiant a chyfranogiad teg. Roedd y cynllun peilot hefyd yn ceisio amlygu lleisiau pobl ifanc sydd fel arfer yn cael eu tangynrychioli mewn bywyd dinesig, gan greu platfformau iddynt lunio sgyrsiau sy'n berthnasol i bolisïau a chyfrannu at nodiau llesiant hirdymor Cymru. Drwy sesiynau trochol wyneb yn wyneb, dysgu ar-lein a phrofiadau'n seiliedig ar brosiectau, cafodd cyfranogwyr eu cefnogi i ddatblygu hyder, sgiliau a'r gallu i weithredu fel ysgogwyr newid newydd.

Mae'r gwerthusiad hwn yn archwilio pa mor effeithiol gafodd y nodau hyn eu gwireddu yn ystod y flwyddyn cynllun peilot. Mae'n asesu profiadau cyfranogwyr, gweithio mewn partneriaeth, dylunio rhaglen ac yn asesu i ba raddau mae'r Academi wedi dechrau meithrin llinell gyflenwi gynaliadwy o arweinwyr ifanc. Mae hefyd yn ystyried aliniad yr Academi gyda blaenoriaethau strategol ehangach, gan gynnwys gweledigaeth Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer newid cyfranogol hirdymor ac ymrwymiad y Brifysgol Agored i ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth, dinasyddiaeth weithredol ac ehangu cyfranogiad at ddysgu gydol oes.

Nod y canfyddiadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn yw bod yn sail i gynnal Academi unwaith eto yn y dyfodol, gan ddarparu argymhellion y gellir gweithredu arnynt ar gyfer atgyfnerthu traweffaith, gwella ymgysylltu a sicrhau bod Newid yn parhau i gyfrannu mewn ffordd ystyrlon tuag at ddyheadau Cymru.

# Cefndir y cynllun peilot

## Gweithio mewn partneriaeth

Mae Newid – Academi Ysgogwyr Newid Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymdrech gydweithredol rhwng Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, Y Brifysgol Agored yng Nghymru, ac Unloc. Gyda'i gilydd, creodd y partneriaid fenter cynllun peilot er mwyn grymuso pobl ifanc ar draws Cymru i arwain newid strwythurol a chyfrannu'n ystyrlon tuag at ddyfodol cynaliadwy, wedi'i wreiddio yn nyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Daeth pob partner â chryfderau nodedig i'r cydweithrediad cenedlaethol hwn. Fel partner arweiniol, darparodd Coleg Pen-y-bont ar Ogwr y sylfaen addysgiadol a'r gymuned ddysgu, gan adeiladu ar ei ymrwymiad arhosol i ehangu cyfranogiad a chyfleodd arweinyddiaeth ar gyfer pobl ifanc. Bu i Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, fel cefnogwr a hyrwyddwr sicrwydd ansawdd, ddarparu yn atodol i hyn drosolwg strategol ac aliniad at nodau llesiant hirdymor Cymru gan sicrhau bod yr Academi'n cefnogi gweledigaeth ehangach y genedl ar gyfer cymdeithas decach, fwy gwyrdd a mwy cydnerth.

Fel partner cyflawni arweiniol ychwanegodd Unloc ddyfnder drwy ei brofiad gyda llais yr ifanc, arweinyddiaeth a rhaglenni entrepreneuriaeth, gan sicrhau bod cyfranogwyr yn cael eu cefnogi gyda phrofiadau dysgu o safon uchel. Cyfrannodd y Brifysgol Agored yng Nghymru arbenigedd academaidd mewn dinasyddiaeth, democratiaeth, a newid gwleidyddol a chymdeithasol fel yr ail bartner cyflawni, gan dynnu ar ei Heriau Cymdeithasol Agored, ymchwil Ysgogwyr Newid ac adnoddauDinasyddiaeth Weithredol Open Learn. Fel arweinydd ymchwil a gwerthuso, roedd y Brifysgol Agored hefyd yn gyfrifol am argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn cefnogi'r Academi y tu hwnt i'r cam cynllun peilot.

## Gweledigaeth ac amcanion

Cytunodd y bartneriaeth i weithio'n gydweithredol er mwyn sefydlu a darparu'r Academi fel cynllun peilot, er mwyn ei roi ar waith gyda chydweithwyr eraill ar draws Cymru yn y dyfodol.

Gweledigaeth y cynllun peilot oedd galluogi newid strwythurol ar draws Cymru drwy rymuso pobl ifanc i arwain eu dyfodol, wedi'i gyflawni drwy greu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc i yrru newid lleol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig gyda'r saith Nod Llesiant.

Prif amcanion yr Academi, yn seiliedig ar y Nodau Llesiant, oedd:

- Grymuso pobl ifanc gyda'r hyder, y sgiliau a'r cymhelliant i arwain newid
- Rhoi dinasyddiaeth fyd-eang ar waith, gyda phobl ifanc yn gwneud penderfyniadau cyfrifol, moesegol
- Gwella sgiliau swyddi a sgiliau bywyd, paratoi pobl ifanc ar gyfer economi'r dyfodol
- Dathlu iaith a diwylliant Cymru drwy brosiectau ysgogi newid creadigol

- Creu cymunedau cryfach drwy weithredu a chydweithredu'n lleol sy'n cael ei arwain gan ieuenctid
- Gwella lles meddyliol, corfforol ac emosiynol, ar gyfer pobl ifanc a'u cymunedau
- Creu mwy o degwch drwy roi llais i bob person ifanc, yn arbennig felly rhai o grwpiau a dangynrychiolir
- Cynyddu gweithredu amgylcheddol sy'n cefnogi cynaliadwyedd a gwytnwch hinsawdd
- Galluogi newid hirdymor, strwythurol sydd wedi'i yrru gan arweinwyr ifanc sy'n dylanwadu ar bolisi a llunio eu dyfodol.

## Beth wnaethom ni

Daeth y partneriaid ynghyd i ddarparu'r cynllun peilot oherwydd ymrwymiad a rennir i rymuso pobl ifanc yng Nghymru i lunio dyfodol mwy teg a mwy cynaliadwy. Daeth Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y Brifysgol Agored yng Nghymru, ac Unloc i gyd ag arbenigedd atodol - o arweinyddiaeth ieuenctid ac arloesi addysgiadol i ymgysylltiad dinesig a newid cymdeithasol hirdymor – fu'n gyfrifol, gyda'i gilydd am lenwi bwlch hanfodol o ran darpariaeth ar gyfer dysgwyr AB 16–25 oed. Drwy gyfuno eu cryfderau, ceisiodd y bartneriaeth greu llwybr eglur er mwyn darparu pobl ifanc gyda'r sgiliau, yr hyder, a'r cyfleoedd i arwain newid strwythurol, wedi'i wreiddio yn uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Yn dilyn cyfarfod sgopio cyd-gynhyrchu oedd yn cael ei arwain gan Goleg Pen-y-bont ar Ogwr ac a fynychwyd gan y partneriaid yn ogystal â phartïon eraill sydd â diddordeb megis Medr ar ddechrau 2025, cytunwyd ar gynllun peilot llawn i'w weithredu yn y flwyddyn academaidd 25/26. Cafodd adborth myfyrwyr ar y cynnig ei goladu drwy bobl ifanc oedd yn ymgysylltu drwy gynaddleddau llais y dysgwr yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr. Gan adeiladu ar hyn, cafodd rhaglen beilot lawn ei datblygu, yn seiliedig ar ddeunyddiau a model darparu Unloc ac ar ddysgu ac ymchwil y Brifysgol Agored, gan gynnwys ei Heriau Cymdeithasol Agored, ymchwil Ysgogwyr Newidac adnoddau Dinasyddiaeth Weithredol. Roedd y rhaglen derfynol, wrth barhau i fod yn hyblyg er mwyn addasu i amserlenni ac anghenion myfyrwyr fel a ganlyn:

| Dyddiad | Gweithgaredd | Fformat | Cynnwys a gynhwyswyd |
|---|---|---|---|
| Hydref 2025 | Sesiynau gwybodaeth ar-lein; recriwtio myfyrwyr i'r cynllun peilot | Ar-lein | • Beth fydd cyfranogwyr yn ei wneud a'r buddion<br>• Pwy sy'n cymryd rhan<br>• Dyddiadau/amseru<br>• Cynllun gwerthuso |

| Dyddiad | Gweithgaredd | Fformat | Cynnwys a gynhwyswyd |
|---|---|---|---|
| Rhagfyr 2025 | Bŵtcamp arweinyddiaeth wyneb yn wyneb 1 (dau ddiwrnod) | Wyneb yn wyneb | Diwrnod 1<br>• Croeso a chyflwyniadau<br>• Gwaith papur a logisteg<br>• Gwaith tîm a sgiliau cyfathrebu<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015<br>• Dewis pwnc a gweithio drwyddo Ysgogwyr Newid<br>Diwrnod 2<br>• Arweinyddiaeth 101<br>• Democratiaeth a bod yn ysgogydd newid<br>• Cynllunio gweithredu cymdeithasol<br>• Cynlluniau i newid (adnabod prosiectau posib) |
| Ionawr 2026 | Sesiynau cysylltu carfan ar-lein (4-6pm); sesiynau un wrth un ar-lein yn ôl yr angen | Ar-lein | • Croeso a chyflwyniadau<br>• Rhanddeiliaid/mapio rhanddeiliaid<br>• Siarad cyhoeddus<br>• Gwestai arbennig: Anna Harris (Pennaeth y Gyllideb, Trysorlys y DU) |
| Chwefror 2026 | Bŵtcamp arweinyddiaeth wyneb yn wyneb 2 (1 diwrnod) | Wyneb yn wyneb | • Gwestai arbennig; Sarah Rees (Ymgeisydd Gwleidyddol, cyn bennaeth Oxfam Cymru)<br>• Gweithio ar gynlluniau newid myfyrwyr, amseru, paratoi ar gyfer Uwchgynhadledd Traweffaith |

| Dyddiad | Gweithgaredd | Fformat | Cynnwys a gynhwyswyd |
|---|---|---|---|
| Mawrth 2026 | Sesiynau cysylltu carfan ar-lein (4-6pm); sesiynau un wrth un ar-lein yn ôl yr angen | Ar-lein | • Gwestai arbennig; Ben Dowling (Unloc) ar sefyll ar gyfer etholiad/gweithio fel cynghorydd lleol<br>• Sut i gymryd camau gweithredu gan ddefnyddio canllawiau gan Ysgogwyr Newid<br>• Paratoi ar gyfer cyflwyniadau'r Uwchgynhadledd Traweffaith (problemau ymarferol) |
| Ebrill 2026 | Uwchgynhadledd traweffaith wyneb yn wyneb (1/2 diwrnod) | Wyneb yn wyneb | • Cyflwyno prosiectau/ cynlluniau newid myfyrwyr<br>• Tystysgrifau cyflawni a dathlu |
| Gorffennaf 2026 [wedi'i gynllunio ar adeg ei ysgrifennu] | Sesiwn cyswllt carfan ar-lein (4-6pm) | Ar-lein | • Gwirio prosiectau/syniadau<br>• Cyfle olaf i gysylltu |

Cafodd y sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb yma eu darparu gyda chyfranogwyr yn edrych ar adnoddau a ddarparwyd a gweithio ar eu prosiectau ysgogwyr newid yn annibynnol (ond gyda chefnogaeth Unloc yn ôl yr angen).

## Gwerthuso

O safbwynt gwerthuso, defnyddiom ddulliau ymchwil cymysg, er mwyn dal cymaint o wybodaeth gyfoethog â phosib. Y prif weithgareddau a'r amserlen oedd:

- Tachwedd 2025: arolwg ar-lein byr cyn-raglen ar resymau cyfranogwyr dros gymryd rhan yn y cynllun peilot a'r ddealltwriaeth sydd ganddynt o greu newid, er mwyn darparu llinell sylfaen y gellid ei chymharu wedyn ar ôl y cynllun peilot
- Rhagfyr 2025 hyd Ebrill 2026: arolygon adborth ar-lein i'w cwblhau'n sydyn wedi'r sesiwn, er mwyn dal barn y cyfranogwyr ynghylch y sesiwn maent newydd ei chwblhau
- Ebrill 2026: grŵp ffocws ar gyfer cyfranogwyr er mwyn darparu adborth ar draweffaith cynllun peilot Academi a'u barn gyffredinol arno
- Ebrill 2026: arolwg byr ar-lein wedi'r rhaglen ar draweffaith yr Academi ar ddealltwriaeth cyfranogwyr a'r gallu i greu newid
- Ebrill 2026: cyfarfod rhwng y pedwar partner, i drafod y prif bwyntiau dysgu er mwyn galluogi trawsnewid o'r cyfnod cynllun peilot i'r cyfnod wedi'r cynllun peilot.

# Cyd-destun y polisi

## Pobl ifanc ac ymgysylltu democrataidd yng Nghymru

Mae ymchwil dros y degawdau diweddar yn dynodi bod patrwm cyson o ostyngiad mewn ymgysylltu mewn prosesau gwleidyddol ffurfiol ymysg pobl ifanc ar draws y DU, gan gynnwys pleidleisio sianeli sefydliadol eraill o gyfranogi. Mae data Tŷ'r Cyffredin yn dangos bod pobl ifanc yn fwy tebygol o fod yn anfodlon gyda democratiaeth ac yn llai tebygol o gyfranogi mewn gwleidyddiaeth ffurfiol megis pleidleisio, er bod llawer yn cyfranogi mewn ffurfiau 'anffurfiol' amgen o fynegiant gwleidyddol a gweithredu cymdeithasol (Uberoi a Johnston, 2022). Yn wir, mae ymchwil diweddar yn awgrymu bod actifiaeth y cyfryngau (sy'n cynnwys cyfryngau cymdeithasol) yn weithgaredd 'anffurfiol' poblogaidd, fel y mae gwneud rhywbeth yn y gymuned leol, a chreu/llofnodi deisebau (Smith a Hewitt, 2024).

Gostyngodd Cymru yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau lleol drwy Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau Senedd y DU yn parhau i fod yn 18 yng Nghymru/ar draws y DU. Er gwaethaf cefnogaeth wleidyddol gan Lafur, Plaid Cymru, y Blaid Werdd a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar gyfer pleidleisio yn 16, mae cyfranogiad ymysg pleidleiswyr ifanc cymwys newydd mewn etholiadau datganoledig yng Nghymru yn parhau i fod yn gymharol isel. Dim ond tua 50% o bobl ifanc 16–17oedoedd wedi cofrestru i bleidleisio cyn etholiad Senedd 2021 (Dhesi, 2022; Foster, 2021), gydag ymchwil yn awgrymu mai dim ond 37 y cant o ddisgyblion cymwys Blwyddyn 11 wnaeth bleidleisio (Foster et al., 2022). Mae cyd-destun yn bwysig er hynny: roedd cyfranogiad cyffredinol yn etholiadau'r Senedd (46.6% yn 2021, 51.6% yn 2026) yn is na'r rhai a bleidleisiodd yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, neu etholiadau cyffredinol y DU (er bod y nifer a bleidleisiodd yn 2026 gyda'r uchaf hyd yma ar gyfer etholiadau'r Senedd). Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod cyfraddau pleidleisio wedi bod yn gostwng at ei gilydd, a hynny yn gyffredinol ar draws y DU gyfan, nid dim ond Cymru, ers y 1990au (Uberoi 2023), gyda nifer y bobl ifanc yn y DU sy'n pleidleisio yn gwaethygu'n gyflym yn y 1990au ac yn parhau i fod yn ystyfnig o isel oddi ar hynny (Chrips a Pearce, 2021).

## Addysg a dealltwriaeth

Rhwystr allweddol o ran cyfranogiad yw dealltwriaeth gyfyngedig o sefydliadau gwleidyddol, cyfrifoldebau a'r ffyrdd mae lefelau gwahanol o lywodraeth yn dylanwadu ar fywyd o ddydd i ddydd. Yn wir, mae ymchwil yn tynnu sylw at ansicrwydd eang ynghylch rolau sefydliadau lleol, cenedlaethol a'r DU gyfan a phrosesau democrataidd yn fwy cyffredinol (Y Comisiwn Etholiadol, 2022; Smith a Hewitt, 2024). Mae astudiaethau megis Astudiaeth Aml-garfan Addysg Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD) yn datgelu amwysedd tuag at wleidyddiaeth a bylchau mewn gwybodaeth wleidyddol ymysg disgyblion oedran uwchradd yng Nghymru (Foster et al., 2022).

Mae'r 'bylchau gwybodaeth' yma yn aml yn adlewyrchu addysg wleidyddol/ddinasyddiaeth anghyson neu annigonol (Moore, 2023). Mae'r llenyddiaeth ehangach yn atgyfnerthu na ddylai'r addysg hwn fod wedi'i ynysu i faes pwnc unigol; yn hytrach, rhaid iddo gael ei wreiddio ar draws diwylliannau'r ysgol a'r gymuned er mwyn cefnogi dysgu dinesig ystyrlon (Simon a Hewitt, 2024) - gan glymu gyda dull Cwricwlwm Cymru newydd (a gyflwynwyd yn 2022, ac a roddwyd ar waith yn llawn erbyn 2026/27). Mae tystiolaeth yn awgrymu'n gynyddol bod dysgu gwleidyddol effeithiol yn gofyn am

adnoddau hygyrch sydd wedi'u cyd-gynhyrchu ac sydd wedi'u gwreiddio ym mhrofiad bywyd pobl ifanc, gyda'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn chwarae rhan yn llunio dealltwriaeth wleidyddol (Smith a Hewitt, 2024).

Mae ymchwil diweddar yn tynnu sylw at heriau parhaus wrth ddarparu addysg wleidyddol a dinasyddiaeth osafon yng Nghymru yn gyson. Mae Moore et al. (2022) yn pwysleisio'r angen am ddysgu gwleidyddol a dinasyddiaeth cryfach mewn ysgolion, arweiniad mwy eglur ar gyfer athrawon - gan gynnwys drwy hyfforddiant TAR - a hanes a gwleidyddiaeth Cymru wedi'u hintegreiddio'n well i Gwricwlwm Cymru. Caiff y pryderon hyn eu hadleisio gan Andreouli et al. (2024), sy'n dadlau bod cwricwlwm newydd Cymru angen ariannu ychwanegol, cronfa gydnerth o adnoddau, ac arweiniad mwy cyson er mwyn cefnogi gweithrediad effeithiol. Mae'r ddwy astudiaeth yn tanlinellu pwysigrwydd parhaus gwreiddio addysg o'r fath mewn ffyrdd sy'n paratoi pobl ifanc ar gyfer cyfranogi mewn bywyd dinesig mewn ffordd ystyrlon. Pwysleisia Andreouli et al. (2024) bwysigrwydd creu gofod o fewn y cwricwlwm ar gyfer trafodaeth myfyrwyr, cysylltu dysgu gwleidyddol gyda phrofiadau bywyd bob dydd pobl ifanc, a chynnig cyfleoedd i ymgysylltu'n uniongyrchol gyda gwneuthurwyr polisi a chymdeithas ddinesig.

## Mentrau

TMae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod nifer o'r problemau hyn, er y gall y pwyslais cyfredol yn y cwricwlwm ar ymreolaeth ysgolion a sybsidiaredd (lle y gall ysgolion ddylunio eu rhaglen eu hunain o fewn y fframwaith cenedlaethol, gan gymryd i ystyriaeth anghenion lleol) achosi risg bod y ddarpariaeth yn amrywiol, a'r safon yn anwastad ar draws Cymru - problem sydd wedi'i hadnabod gan Andreouli et al. (2024), sy'n tynnu sylw at amrywioldeb yn sut mae Cwricwlwm Cymru'n cael ei roi ar waith, yn ogystal â chan Smith a Hewitt (2024). Felly, efallai bod tensiwn rhwng ymreolaeth leol, gwreiddio'r dysgu hwn ar draws y cwricwlwm/i mewn i ddiwylliannau ysgol a chymunedau'n gyffredinol, a gwneud yn siŵr bod y pwnc yn cael ei gynnwys gyda'r lefel priodol o fanylion (y gallai rhaglen fwy nodedig eu darparu o bosib). Mewn perthynas â'r pwynt olaf, gallai cyflwyno TGAU newydd mewn Hanes ac Astudiaethau Cymdeithasol o 2026 - ill dau yn ymgorffori hanes a gwleidyddiaeth Cymru - agor llwybrau ar gyfer addysg wleidyddol a dinasyddiaeth sydd â mwy o ffocws (Moore et al. 2022).

Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Bapur Gwyn ar Weinyddiaeth Etholiadol a Diwygio er mwyn casglu mewnbwn eang gan y cyhoedd ar sut i atgyfnerthu cyfranogiad democrataidd yng Nghymru. Gan adeiladu ar y gwaith hwn, sefydlodd y llywodraeth y Grŵp Cynghori Democratiaeth Arloesol yn 2025, yn dilyn argymhellion gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Corfforedig Cymru. Rôl y grŵp yw archwilio ffyrdd newydd i ddinasyddion ymgysylltu gyda sefydliadau a phrosesau democrataidd Cymru ac i annog ffurfiau mwy arloesol o gyfranogi (Llywodraeth Cymru, 2025). Mae'r datblygiadau hyn yn eistedd ochr yn ochr ag ymdrechion ehangach y llywodraeth i foderneiddio etholiadau, rhoi hwb i ymgysylltu gwleidyddol a gwella addysg ddinesig a dinasyddiaeth. Yn ogystal, mae creu Medr – y corff newydd sy'n gyfrifol am oruchwylio'r holl addysg ôl 16 o 2024 – yn arwydd o botensial pellach ar gyfer newid, gyda'i genhadaeth yn benodol yn pwysleisio dysgu gydol oes ac ymwneud dinesig.

Ochr yn ochr â hyn, mae gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ymgysylltiad pobl ifanc yn greiddiol iddo. Gan fod yn gyfrifol am hyrwyddo a gwarchod buddiannau cenedlaethau'r dyfodol o dan Ddeddf llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae gwaith y Comisiynydd yn cylchdroi o amgylch sicrhau

bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithredu gyda chynaliadwyedd hirdymor, atal, cydweithrediad, integreiddiad ac ymwneud dinesig wrth galon gwneud penderfyniadau. Yn rhan o hyn, mae'r corff wedi sefydlu Academi Arweinyddiaeth sy'n cefnogi pobl ifanc 18–30 oed ar draws Cymru er mwyn datblygu sgiliau arweinyddiaeth sydd wedi'u gwreiddio yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol, gan eu paratoi i gyfrannu at ddyfodol mwy cynaliadwy a theg drwy ddatblygu prosiectau newid bywyd go iawn o fewn eu cymunedau - felly, ymgysylltu mewn ffordd wleidyddol 'anffurfiol' fel y soniwyd yn gynharach.

## Symud ymlaen

Mae neges gyson yn ymddangos yn yr holl astudiaethau: mae gwella ymgysylltiad gwleidyddol a democrataidd ehangach pobl ifanc yng Nghymru yn gofyn am addysg wleidyddol/dinasyddiaeth fwy eglur, gwell adnoddau, cyfleoedd wedi'u strwythuro ar gyfer trafodaeth, a chysylltiadau cryfach rhwng pryderon bob dydd pobl ifanc a gwleidyddiaeth. Mae mentrau parhaus Llywodraeth Cymru yn arwydd o foment a allai fod yn bwysig ar gyfer atgyfnerthu cyfranogiad democrataidd a dysgu dinesig. Fodd bynnag, mae angen ymchwil pellach a buddsoddiad er mwyn mynd i'r afael ag ansicrwydd parhaus, gwella'r gyfradd bleidleisio a chefnogi ymgysylltiad democrataidd ystyrlon ymysg pobl ifanc.

# Cefndir y garfan

Roedd y cynllun peilot yn cynnwys chwe chyfranogwr o Goleg Pen-y-bont ar Ogwr, rhif y mae modd ei drin er mwyn treialu'r Academi, ei gwerthuso, a helpu i'r wella ar gyfer ailadrodd yn y dyfodol.

Ar ddechrau'r cynllun peilot:

- Oedran: roedd un myfyriwr yn 16, roedd dau yn 17, roedd un yn 19, un yn 24 ac roedd yn well gan un beidio â dweud (ond roedd rhwng 16 a 25)
- Iaith a hunaniaeth: dywedodd pob un o'r myfyrwyr mai Saesneg oedd eu dewis iaith yn hytrach na'r Gymraeg; roedd hanner ohonynt yn ystyried eu hunain yn Gymry
- Rhyw: roedd pedair yn fenywaidd, un yn wrywaidd, ac roedd yn well gan un beidio â dweud
- Addysg: y lefel uchaf o addysg a gwblhawyd hyd yma oedd addysg bellach ar gyfer tri myfyriwr, addysg uwchradd ar gyfer dau, gydag un myfyriwr heb fod yn ateb
- Ethnigrwydd: roedd pedwar myfyriwr yn wyn (dau'n wyn Prydeinig, dau'n wyn arall), un grŵp ethnig arall, ac roedd yn well gan un myfyriwr beidio â dweud
- LHDTC+: dywedodd dau o'r myfyrwyr bod ganddynt hunaniaeth LHDTC+, dywedodd pedwar ohonynt nad oedd ganddynt
- Anabledd: dywedodd pump o'r myfyrwyr nad oeddent yn adnabod fel bod yn anabl, a dywedodd fod yn well ganddynt beidio â dweud
- Cyfrifoldebau gofalu: doedd gan yr un o'r myfyrwyr gyfrifoldebau gofalu
- Addysg brifysgol rhieni: dywedodd pedwar o'r myfyrwyr bod eu rhieni wedi mynychu prifysgol, a dau ohonynt heb.

Ar adeg cofrestru ar gyfer y cynllun, roedd y rhesymau a roddwyd gan y cyfranogwyr dros gymryd rhan yn yr Academi yn  cynnwys:

> *"Hoffwn fod yn rhan o Newid... oherwydd mae'n cynrychioli mwy na dim ond rhaglen - mae'n gymuned o bobl sy'n angerddol dros droi syniadau yn draweffaith gwirioneddol, arhosol."*

> *"Mae newid y byd er gwell yn brif flaenoriaeth i mi a hoffwn i gymryd rhan weithredol yn y newid hwnnw gan fy mod i'n wirioneddol angerddol drosto."*

> *"Oherwydd fy mod i am wneud y byd yn lle gwell."*

> *"Mae'n golygu bod yn rhan o newid rwy'n angerddol iawn drosto a gweld y newid hwnnw'n cael ei roi ar waith a'r ... traweffaith ar gyfer y genhedlaeth iau."*

*“Rwyf eisiau bod yn rhan o’r Academi Ysgogi Newid a chynnig syniadau [ac] opsiynau ar wahanol bynciau. Yn ogystal â hyn, rwyf eisiau gwneud profiadau newydd, cyfarfod pobl newydd, a chwarae rhan yn natblygiad y coleg.”*

*“Rwy’n angerddol dros … ddiwydiannau sy’n bennaf yn cynnwys dynion, newid barn a chael eich clywed.”*

# Prosiectau myfyrwyr

Cafodd pob myfyriwr a gyfranogodd dasg o greu 'prosiect newid'. Byddai'r prosiect hwn wedi'i anelu at newid rhywbeth yn y coleg, y gymuned leol, Cymru, neu'r DU yn ehangach. Gofynnwyd iddynt roi cynllun ysgogi newid yn ei le cyn y Gynhadledd Traweffaith ar 17eg Ebrill 2026, lle byddent yn cyflwyno eu syniad a'u gweithgaredd ysgogi newid i'r coleg, cynrychiolwyr lleol, a Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn ogystal ag adeiladu ar y dysgu ailadroddol yr ymgymerwyd ag o yn y sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein, gweithiodd y myfyrwyr i ddogfen gynllunio 'cynllun newid'. Roedd hyn er mwyn helpu myfyrwyr i ganolbwyntio ar ffocws eu prosiect ac adnabod yr hyn roedd angen iddynt ei wneud. Cafodd y ddogfen ei rhannu i'r adrannau canlynol:

- Y broblem - pa broblem ydym ni'n ceisio ei newid? (Disgrifiwch hyn mewn un neu ddwy o frawddegau eglur.)

- Pam ei fod yn bwysig

- Nod - erbyn diwedd y prosiect hwn, beth fydd yn wahanol? (Byddwch yn benodol ac yn realistig. Enghraifft: "Mwy o fyfyrwyr yn deall sut i bleidleisio ac yn teimlo'n hyderus i gofrestru.")

- Pwy rydym am ddylanwadu arnynt - pwy ydynt a beth ydym ni eisiau ganddynt?

- Ein syniad - pa gamau gweithredu fydddwn ni'n eu cymryd? (Gweithdy, ymgyrch cyfryngau cymdeithasol, digwyddiad, deiseb, cyfarfod, fideo, arolwg ac ati)

- Ein cynllun:

| Cam | Camau gweithredu | Gan bwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| 1 | | | |
| 2 | | | |
| 3 | | | |
| 4 | | | |

- Risgiau a rhwystrau - beth allai fod yn mynd yn y ffordd? Sut allwn ni leihau neu reoli hyn?


- Mesur llwyddiant - sut fyddwn ni'n gwybod os ydym wedi gwneud gwahaniaeth? (Rhifau a gyrhaeddwyd? Adborth? Newidiadau mewn ymddygiad, ymwybyddiaeth neu benderfyniadau?)


- Adfyfyriad (wedi'r prosiect) - beth wnaeth weithio'n dda? Beth fyddem ni'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf? Pa draweffaith rydym yn fwyaf balch ohono?

Gofynnwyd i'r myfyrwyr hefyd feddwl ynghylch pa un o'r nodau llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae eu prosiect wedi alinio iddo.

Gweithiodd y myfyrwyr ar eu prosiectau newid ar draws yr holl raglenni, gan ddysgu, ar

yr un pryd, ynghylch sgiliau ysgogi newid, sgiliau arweinyddiaeth, siarad cyhoeddus, a democratiaeth, prosesau gwleidyddol a sefydliadau yng Nghymru a thu hwnt.




*Enghreifftiau o gynllunio prosiectau newid myfyrwyr, yn gynnar yn y rhaglen.*

Gyda'i gilydd, gweithiodd pump o'r chwe myfyriwr ar brosiect newid (cyfranogodd y chweched myfyriwr yn yr Academi er mwyn dysgu am ysgogi newid, ond nid oeddent eisiau gweithio ar brosiect penodol ar y pryd hwnnw). Yn gyffredinol roedd y prosiectau'n ffocysu ar y coleg, yn hytrach na bod â ffocws ar Gymru neu DU cyfan.

Roedd y prosiectau hyn hefyd yn gogwyddo tuag at ysgogi newid o safbwynt ffocysu ar 'broblem' benodol o ddydd i ddydd, sydd o bwys neu rywbeth mae myfyrwyr yn angerddol drosto, yn hytrach na newidiadau gwleidyddol neu gysylltiedig gyda pholisi mwy, gan gadw'r posibilrwydd o fynd â phrosiectau ymhellach.

Y prosiectau oedd:


- Myfyriwr a: 'yr ystafell ailosod' - creu gofod diogel ar gyfer trafodaethau iechyd meddwl drwy weithgareddau a gofodau yn y coleg, gan ddechrau fel digwyddiad llesiant untro gyda'r potensial ar gyfer digwyddiadau pellach (prosiect wedi'i adnabod a'i gynllunio ond heb ei ddefnyddio ar adeg yr Uwchgynhadledd Traweffaith)

- Myfyriwr b: dyddiau mabolgampau cynhwysol - cynnal diwrnod chwaraeon wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer plant cynradd hŷn, gan bontio'r bwlch mewn addysg gorfforol ac ymwybyddiaeth o faeth (prosiect wedi'i adnabod, ei gynllunio, gyda dyddiadau wedi'u gosod ar gyfer gweithio gyda Choleg Pen-y-bont ar Ogwr)


- Myfyriwr c: Cymdeithas LHDTCRhA+ - sefydlu cymdeithas newydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr (prosiect wedi'i adnabod, ei gynllunio, gyda sesiynau cofrestru pop-yp yn cael eu cynnal a hysbysebu o fewn y coleg wedi'i roi ar waith)

- Myfyriwr d: gwefan hawliau anifeiliaid - yn canolbwyntio ar fwydydd lleol a rysetiau fegan a llysieuol (wedi'i adnabod, ei gynllunio, gwefan yn cael ei datblygu)


- Myfyriwr e: mynd i'r afael ag iechyd meddwl drwy iechyd corfforol - sefydlu mynediad am ddim i'r gampfa i fyfyrwyr yn y coleg (wedi'i adnabod, ei gynllunio, a'i gwblhau).




*Myfyriwr a: yr ystafell ailosod*





*Myfyriwr b: diwrnod mabolgampau cynhwysol*




*Myfyriwr c: Cymdeithas LHDTCRhA+*




*Myfyriwr d: gwefan hawliau anifeiliaid*




*Student e: Mynd i'r afael ag iechyd meddwl drwy iechyd corfforol.*

Cyflwynodd yr holl fyfyrwyr eu prosiectau newid a chawsant wedyn eu cyflwyno gyda thystysgrif gan Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol.




*Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol, yn yr Uwchgynhadledd Traweffaith.*

# Canfyddiadau: arolygon myfyrwyr

## Arolygon cyn ac wedi'r rhaglen

Gofynnwyd i'r myfyrwyr gwblhau arolwg ar ddechrau'r rhaglen (ar ddechrau'r bŵtcamp wyneb yn wyneb fis Rhagfyr, cyn i unrhyw ddysgu ddigwydd) ac ar ddiwedd y rhaglen (wedi'r Uwchgynhadledd Traweffaith ym mis Ebrill).

Cwblhaodd pob un o'r chwe myfyriwr yr arolwg cychwynnol, a chwblhaodd pum myfyriwr yr arolwg ar y diwedd (rhoddodd un myfyriwr y gorau i gyfranogi wedi'r digwyddiad wyneb yn wyneb ym mis Chwefror, oherwydd, fel y nodwyd uchod, roedd eu ffocws ar ddysgu am newid, yn hytrach na chwblhau'r prosiect newid, ac nid oeddent yn teimlo'r angen i barhau i gyfranogi ar y pwynt hwnnw). O ganlyniad, mae'r canfyddiadau'n gallu adlewyrchu newidiadau cyfansymiol mewn ymatebion grŵp yn hytrach na newid cyfatebol ar gyfer yr un unigolion. Dylai canlyniadau felly gael eu dehongli fel bod yn dangos traweffaith cyffredinol y rhaglen yn hytrach na newid diamod ar lefel unigol. Defnyddiodd y cwestiynau rancio raddfa Likert 4 pwynt; ar gyfer y rhan fwyaf o'r cwestiynau roedd y fformat yn 1=dim, 2=isel, 3=canolig, 4=uchel.

## Traweffaith ar wybodaeth a sgiliau

Arweiniodd cyfranogiad yn yr Academi Ysgogi Newid at welliannau nodedig ar draws yr holl barthau a fesurwyd. Y newid mwyaf sylweddol oedd yng ngwybodaeth cyfranogwyr am Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'i nodau cysylltiedig, oedd yn cynyddu o linell sylfaen isel/canolig (sgôr cymedrig o 2.0) i lefel gref o ddealltwriaeth wedi'r rhaglen (sgôr cymedrig o 3.6). Mae hyn yn cynrychioli'r newid mwyaf y sylwyd arno ac yn adlewyrchu llwyddiant yr Academi wrth wella llythrennedd polisi'r cyfranogwyr.

Adroddodd y cyfranogwyr yn ogystal am welliannau o ran sgiliau arweinyddiaeth ac ysgogi newid. Er bod sgoriau sylfaenol eisoes ar lefel cymhedrol i uchel, cynyddodd sgoriau cyfartalog ymhellach erbyn diwedd y rhaglen, gan ddynodi'r gwerth ychwanegol hyd yn oed ar gyfer cyfranogwyr gweddol hyderus.

| Maes | Cyn y rhaglen | Ar ôl y Rhaglen | Newid |
|---|---|---|---|
| Gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 2.0 | 3.6 | +1.6 |
| Sgiliau arweinyddiaeth | 3.33 | 3.6 | +0.27 |
| Sgiliau ysgogi newid | 3.0 | 3.6 | +0.60 |

## Dealltwriaeth a'r gallu i greu newid

Mewn perthynas â deall sut i wneud newidiadau gwleidyddol a chymdeithasol tymor hir, roedd yr enillion ar eu cryfaf ar lefel lleol. Mae hyn yn awgrymu bod y rhaglen wedi bod yn arbennig o effeithiol wrth alluogi cyfranogwyr i weld eu hunain fel pobl sy'n ysgogi newid lleol mewn ffordd weithredol, yn hytrach na gweithredwyr gwleidyddol haniaethol. Mae hyn yn cyd-fynd gyda phrosiectau newid y myfyrwyr, oedd yn

canolbwyntio ar lefel 'lleol' (coleg). Roedd dealltwriaeth fyd-eang wedi'i lleihau ychydig, ond nid dyma oedd ffocws y rhaglen, ac nid yw'n ganlyniad sy'n achos pryder.

| Lefel | Cyn y rhaglen | Ar ôl y Rhaglen | Newid |
|---|---|---|---|
| Lleol | 2.33 | 3.0 | +0.67 |
| Cenedlaethol (Cymru) | 2.33 | 2.6 | +0.27 |
| DU | 2.33 | 2.6 | +0.27 |
| Byd-eang | 2.5 | 2.4 | -0.1 |

O safbwynt y gallu i gyflawni newid gwleidyddol/cymdeithasol hirdymor, mae'r patrwm yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth, gyda symudiad eglur ymlaen at lefelau lleol a chenedlaethol, a chynnydd llai ond cyson ar lefel y DU ac yn fyd-eang. Mae hyn yn awgrymu bod cyfranogwyr nid yn unig yn deall newid yn well, ond maent yn teimlo'n fwy cymwys i weithredu, yn arbennig felly yn lleol.

| Lefel | Cyn y rhaglen | Ar ôl y Rhaglen | Newid |
|---|---|---|---|
| Lleol | 2.5 | 3.0 | +0.5 |
| Cenedlaethol (Cymru) | 2.33 | 2.8 | +0.47 |
| DU | 2.17 | 2.4 | +0.23 |
| Byd-eang | 2.0 | 2.4 | +0.4 |

## Hyder a deilliannau ehangach

Hyder wedi cynyddu ar draws pob maes mesuradwy. Roedd y sgoriau wedi'r rhaglen yn gyson uchel, gan ddynodi bod cyfranogwyr at ei gilydd yn gorffen yr Academi'n teimlo eu bod wedi'u grymuso, yn alluog, ac yn barod ar gyfer y dyfodol.

| Datganiad hyder | Cyn y rhaglen | Ar ôl y rhaglen | Newid |
|---|---|---|---|
| Hyderus i arwain newid | 3.33 | 3.60 | +0.27 |
| Hyderus wrth wneud penderfyniadau cyfrifol a moesegol fel dinesydd byd-eang gweithredol | 3.33 | 3.80 | +0.47 |
| Hyderus i fod â sgiliau swyddi a bywyd ar gyfer economi'r dyfodol | 2.83 | 3.60 | +0.77 |
| Hyderus i ddathlu iaith a diwylliant Cymru | 2.83 | 3.20 | +0.37 |
| Hyderus o gyfrannu at gymunedau cryfach drwy weithredu a chydweithredu'n lleol | 3.00 | 3.60 | +0.60 |
| Hyderus gyda lles meddyliol, corfforol ac emosiynol | 3.17 | 3.80 | +0.63 |
| Hyderus bod yr holl leisiau'n cael eu clywed, yn arbennig felly rhai o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli | 2.83 | 3.20 | +0.37 |

| Datganiad hyder | Cyn y rhaglen | Ar ôl y rhaglen | Newid |
|---|---|---|---|
| Hyderus i weithredu dros yr amgylchedd a chefnogi cynaliadwyedd a gwytnwch hinsawdd | 2.83 | 3.40 | +0.57 |

## Profiad y cyfranogwr

Mae dadansoddi'n dangos bod cysylltiad cryf rhwng disgwyliadau cychwynnol cyfranogwyr ynghylch yr hyn roeddent yn gobeithio ei gyflawni a'r deilliannau roeddent yn adrodd amdanynt. Roedd prif ddyheadau megis datblygu sgiliau ysgogi newid, gwella cyflogadwyedd a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ar y cyfan yn cael eu bodloni ar y cyfan. Mewn rhai achosion, roedd y cyflawniadau yr adroddwyd arnynt yn mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau cychwynnol, yn fwyaf nodedig mewn perthynas â gwybodaeth am Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a hyder, gan awgrymu bod cyfranogwyr wedi ennill buddion nad oeddent wedi'u rhagweld yn llawn o'r cychwyn cyntaf. Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau'n dangos bod yr Academi Ysgogi Newid wedi cyflawni'n effeithiol yn erbyn blaenoriaethau'r cyfranogwyr, wrth gynhyrchu gwerth ychwanegol nas rhagwelwyd yn ogystal, er bod y ganran oedd yn adrodd bod ganddynt well gwybodaeth am wleidyddiaeth Cymru yn isel a gellid mynd i'r afael â hyn pe bai'r rhaglen yn cael ei hailadrodd yn y dyfodol.

| Canlyniad | Cyn: cyfrif (niffer=6) | Cyn: % o ymatebwyr | Ar ôl: cyfrif (nifer=5) | Ar ôl: % o ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|
| Gwneud i newid gwirioneddol ddigwydd / cael effaith ar newid | 4 | 66.7% | 5 | 100% |
| Sgiliau ysgogi newid gwell (e.e. datrys problemau, cyfathrebu, negodi) | 6 | 100% | 5 | 100% |
| Gwell gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 2 | 33.3% | 5 | 100% |
| Sgiliau arweinyddiaeth wedi gwella | 5 | 83.3% | 4 | 80.0% |
| Hyder wedi gwella | 2 | 33.3% | 4 | 80.0% |
| CV ar gyfer y dyfodol / proffil swydd wedi gwella | 4 | 66.7% | 4 | 80.0% |
| Dealltwriaeth o wleidyddiaeth Cymru (lleol neu genedlaethol) wedi gwella | 1 | 16.7% | 1 | 20.0% |

Roedd yr adborth ar ôl y rhaglen ar gynhwysiant, effeithiolrwydd dysgu, cynnwys a darpariaeth y sesiynau yn gadarnhaol drwyddo draw, gyda'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn gosod yr agweddau hyn ar y lefel uchaf (y fformat oedd 1=dim o gwbl, 2=ychydig, 3=cymhedrol, 4=llawer iawn).

Dylid nodi bod maint y sampl yn fach, ac mae'r canlyniadau'n seiliedig ar ganfyddiadau wedi'u hunan-adrodd heb grŵp cymharu. Yn ogystal, mae'r data'n dal adfyfyriadau uniongyrchol ar ôl y rhaglen ac felly'n adlewyrchu traweffeithiau

tymor byr yn hytrach na deilliannau ymddygiadol hirdymor. Serch hynny, o fewn y cyfyngiadau hyn, mae'r canlyniadau'n darparu dynodiad defnyddiol o werth posib y rhaglen a'r meysydd lle ceir cryfderau, ac maent yn cynnig sylfaen cydnerth ar gyfer gwerthusiad pellach wrth i'r Academi gael ei datblygu neu ei hailadrodd.

## Arolygon ar ôl sesiynnau

Gofynnwyd i'r myfyrwyr yn ogystal i gwblhau arolwg adborth cyflym wedi pob un o'r prif sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein (Rhagfyr, Ionawr, Chwefror, Mawrth), er mwyn rhoi adborth ar bob sesiwn penodol. Y cwestiynau oedd:

- Pa mor gynhwysol oedd cynnwys y sesiwn (h.y. ei bod yn adlewyrchu safbwyntiau amrywiol a gwneud i chi deimlo eich bod wedi eich cynnwys)? [ar raddfa o 1 i 4, lle mai 4 yw'r uchaf]

- Pa mor gynhwysol oedd fformat y sesiwn (h.y. bod sut roedd y sesiwn yn cael ei darparu yn gwneud i'r cynnwys fod yn hygyrch i chi)? [ar raddfa o 1 i 4, lle mai 4 yw'r uchaf]

- Pa mor eglur â phosib oedd deilliannau'r sesiwn? [ar raddfa o 1 i 4, lle mai 4 yw'r uchaf]

- Pa mor ddiddorol ac apelgar oedd cynnwys y sesiwn? [ar raddfa o 1 i 4, lle mai 4 yw'r uchaf]

- I ba raddau ydych chi'n teimlo fel ysgogwr newid wedi'r sesiwn? [ar raddfa o 1 i 4, lle mai 4 yw'r uchaf].

Ymatebodd y myfyrwyr gyda 3 (cymhedrol) neu 4 (llawer iawn) ar gyfer pob cwestiwn ym mhob sesiwn. Yr unig adeg y bu i'r myfyrwyr ymateb gyda 2 (ychydig) oedd mewn ymateb i 'I ba raddau ydych chi'n teimlo fel rhywun sy'n ysgogi newid' wedi'r sesiynau bŵtcamp wyneb yn wyneb fis Rhagfyr a mis Chwefror:

- Chwefror: dim o gwbl (0 myfyrwyr, 0%), ychydig (2 fyfyriwr, 33%), cymhedrol (2 fyfyriwr, 33%), llawer iawn (2 fyfyriwr, 33%)

- Rhagfyr: dim o gwbl (0 myfyrwyr, 0%), ychydig (1 myfyriwr, 20%), cymhedrol (2 fyfyriwr, 40%), llawer iawn (2 fyfyriwr, 40%).

Yn gyffredinol mae cyfraddau sy'n gyson uchel yn awgrymu bod y sesiynau'n cael eu hystyried i fod yn rhai cynhwysol, hygyrch, ac apelgar ar draws y fformatau wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod y sesiynau'n effeithio wrth gefnogi dealltwriaeth myfyrwyr o'r canlyniadau a fwriadwyd ac i feithrin ymdeimlad o fod yn gallu gweithredu a hyder fel ysgogwyr newid. Gyda'i gilydd, mae ymatebion yr arolwg yn darparu tystiolaeth bositif o effeithiolrwydd dyluniad a darpariaeth y sesiwn drwy gydol y rhaglen. Er bod y canfyddiadau'n bositif, dylid eu dehongli'n ofalus o gofio nifer isel yr ymatebwyr a'r defnydd a wnaed o'r cwestiynau gwirio byr, sydyn oedd â'r bwriad o gasglu adborth dangosol, cyflym yn hytrach na gwerthusiad trylwyr.

# Canfyddiadau: grŵp ffocws myfyrwyr

Wedi'r Uwchgynhadledd Traweffaith, cynhaliwyd grŵp ffocws gyda'r pum myfyriwr oedd ar ôl oedd yn cyfranogi. Nod y grŵp ffocws oedd cael y bobl ifanc i ddarparu adborth ar draweffaith a barn gyffredinol ynghylch yr Academi Ysgogwyr Newid. Roedd yr adborth fel a ganlyn:

**C1. Beth wnaeth weithio'n dda o safbwynt yr Academi, a beth wnaeth ddim gweithio cystal?**

**Beth weithiodd yn dda**

**Amrywiaeth y cyfranogwyr a dilyniant sesiynau**

Roedd cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i weithio gyda dysgwyr o wahanol gampysau, cyrsiau a chefndiroedd. Ystyriwyd bod strwythur y rhaglen yn effeithiol at ei gilydd, gan ddechrau gyda chyflwyniadau ac yn raddol adeiladu tuag at bynciau mwy cymhleth.

> *"Roedd o wahanol gampysau… gwahanol gyrsiau… roedd y sesiwn cyntaf yn wirioneddol dda o ran dod i adnabod pawb… roedd yn stwff cyflwyno da ac wedyn… wrth i ni gyd fynd drwy'r sesiynau roedd yn adeiladu'n araf i fod yn fwy." [myfyriwr 1].*[2]

**Siaradwyr gwadd**

Cafodd siaradwyr gwadd eu hadnabod yn gyson fel un o gryfderau'r Academi. Roedd cyfranogwyr yn teimlo eu bod wedi dysgu sgiliau newydd ac ennill safbwyntiau gwahanol, yn arbennig felly o amgylch siarad cyhoeddus, arweinyddiaeth a gwleidyddiaeth.

> *"Ro'n i wrth fy modd gyda'r amrywiaeth o westeion gwadd gawsom ni." [myfyriwr 5].*

> *"Dysgais cymaint am siarad cyhoeddus a sgiliau arweinyddiaeth." [siaradwr 2].*

**Cefnogaeth ac ymatebolrwydd**

Disgrifiwyd y gefnogaeth a ddarparwyd gan staff fel rhywbeth hanfodol, yn arbennig felly mewn perthynas â phrosiectau newid. Roedd adborth ac ymatebolrwydd cyflym yn helpu cyfranogwyr i deimlo eu bod yn gallu gwneud cynnydd.

> *"Roedd yr adborth yn wirioneddol dda… a'r amser ymateb. Os oeddech chi'n gofyn cwestiwn, byddech yn ei gael yn ôl o fewn y diwrnod hwnnw neu o leiaf y diwrnod nesaf." [myfyriwr 1].*

> *"Ro'n i'n hoffi'r ffaith ein bod ni wedi cael llawer iawn o gymorth gan y coleg yn ogystal â phawb arall." [Myfyriwr 4]*

---

2 Noder, nid yw'r niferoedd myfyrwyr yn yr adran hon yn berthnasol i'r prosiectau myfyrwyr a restrwyd yn yr adran 'prosiectau myfyrwyr', er mwyn sicrhau bod cyfranogwyr y grŵp ffocws yn ddienw.

**Beth wnaeth ddim gweithio cystal**

**Cydbwysedd o ddarpariaeth ar-lein ac wyneb yn wyneb**

Er bod sesiynau ar-lein yn cael eu hystyried yn ddefnyddiol ar gyfer cefnogaeth un wrth un a diweddariadau prosiect, roedd cyfranogwyr yn teimlo bod gormod o sesiynau ar-lein yn gyffredinol neu nad oedd yr amseru (4-6pm) o gymorth mewn perthynas â'r coleg a theithio. Disgrifiwyd sesiynau wyneb yn wyneb fel rhai oedd yn fwy apelgar, ac fe wnaethant helpu cyfranogwyr i deimlo eu bod wedi ymrwymo i fynychu, er eu bod hefyd yn nodi gwerth y sesiynau ar-lein ar gyfer helpu gyda dilyniant y prosiect.

> *"Wyneb yn wyneb... rydych chi'n gwneud ymrwymiad... rwy'n deall bod ar-lein yn ymrwymiad, wrth gwrs, ond mae'n hawdd iawn anghofio amdanyn nhw." [myfyriwr 5].*

> *"Mae'n fwy rhyngweithiol wyneb yn wyneb hefyd, rydych chi'n cael mwy o ymdeimlad ohono." [myfyriwr 1].*

> *"Rwyf hefyd yn meddwl ar gyfer yr holl stwff yn ymwneud â chynnydd y dylem fod wedi cael mwy o bethau ar-lein". [myfyriwr 4]*

**Amseru ac eglurder o amgylch y prosiectau newid**

Roedd sawl cyfranogwr yn teimlo bod y prosiect newid wedi'i gyflwyno'n rhy hwyr ac y dylai fod yn fwy eglur o'r cychwyn cyntaf.

> *"Byddai wedi bod yn beth braf o'r cychwyn i gael trosolwg o'r prosiect sydd gennych i'w wneud... i ddechrau meddwl am hynny nawr." [myfyriwr 5].*

> *"Ella y gallwn ni wella'r amseru, oherwydd, fe wnaethom ddechrau hyn i gyd ym mis Medi, yn yr ychydig wythnosau'n arwain i fyny at y Pasg, fe ddywedon nhw wrthym ni i gael popeth yn barod erbyn yr 17eg, [ond] rydym wedi bod yn cyfarfod am ychydig fisoedd cyn hynny. [myfyriwr 3].*

**Cyfathrebu gyda staff dysgu**

Profodd rhai cyfranogwyr anawsterau gyda staff dysgu nad oedd yn ymwybodol o'r Academi, gan arwain at bryderon ynghylch gwersi a gollwyd.

> *"Cefais gymaint  o ebyst yn dweud nad oedden nhw'n hapus [fy mod i'n] mynychu'r cyfarfodydd... oherwydd mae llawer ohonyn nhw'n meddwl ein bod ni'n methu'r gwersi'n fwriadol." [myfyriwr 2].*

**C2. Ydych chi'n teimlo fel ysgogwr newid mwy effeithiol ar ôl i chi gymryd rhan?**

**Mwy o hyder a sgiliau**

Dywedodd yr holl gyfranogwyr eu bod yn teimlo'n fwy effeithiol fel ysgogwyr newid. Roedd yr enillion a adroddwyd yn cynnwys hyder, siarad cyhoeddus, sgiliau arweinyddiaeth, sgiliau digidol, a gwybod sut i ddechrau prosiectau.

> *"Rwy'n bendant wedi dysgu sut i fynegi fy marn yn llawer mwy nag y byddwn*

*wedi'i wneud fel arfer - yn bendant yn fwy hyderus." [myfyriwr 4].*

*"Rwyf wedi dysgu sut i lansio gwefan." [myfyriwr 3].*

*"Ac rwyf hefyd wedi dysgu sut i ddechrau prosiect oherwydd fel arfer rwyf ond yn dilyn syniadau pobl eraill ac yna eu newid er mwyn eu gwneud yn bersonol i mi, ond rwyf wedi dysgu sut i gael y syniadau fy hun." [myfyriwr 5].*

### Ymwybyddiaeth wleidyddol gynyddol

Disgrifiodd y cyfranogwyr fwy o ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad gwleidyddol, yn arbennig felly ymysg rhai sydd yn flaenorol wedi teimlo nad oedd ganddynt unrhyw gysylltiad gyda gwleidyddiaeth.

*"Rwy'n gwybod llawer mwy am stwff gwleidyddol rŵan. Cyn hyn, doeddwn i ddim hyd yn oed eisiau gwybod amdano." [myfyriwr 1].*

### Cyflymder a strwythur y rhaglen

Cafodd y dull cam wrth gam dderbyniad cadarnhaol, gyda chyfranogwyr yn teimlo bod sesiynau wedi'u gosod ar gyflymder priodol.

*"I thought it went at a good pace, they didn't introduce things too quickly… It was session by session, we learned about different things, learned how to tackle those issues, and then move on to the next thing." [student 1]*

### Bylchau sydd wedi'u hadnabod

Byddai rhai cyfranogwyr wedi hoffi gwybodaeth fwy eglur, a niwtral ynghylch pleidiau gwleidyddol er mwyn cefnogi pleidleisio gwybodus.

*"Buaswn wedi hoffi cael cyflwyniad neu sgwrs ynghylch beth mae pob un o'r pleidiau'n ei wneud fel fy mod i'n gallu cael teimlad o bwy faswn i am bleidleisio iddynt oherwydd rŵan rwy'n teimlo fy mod i'n gwybod bod pleidleisio'n bwysig, ond mae'n mynd i gymryd llawer iawn o amser ac ymchwil i wybod i bwy y dylwn bleidleisio. Felly byddai trosolwg bach o bob un o'r pleidiau wedi bod yn beth braf…" [myfyriwr 5].*

## C3. Pa mor ddefnyddiol oedd y wefan Ysgogwyr Newid?

Fel rhan o'r rhaglen, cafodd y myfyrwyr fynediad at amrywiol adnoddau ynghylch ysgogi newid, gan gynnwys Gwefan Ysgogwyr Newid, a ddatblygwyd gan y Brifysgol Agored. Roeddem eisiau gwybod pa mor ddefnyddiol oedd yr adnoddau hynny, er mwyn bod yn sail i ddarparu Academi unwaith eto yn y dyfodol.

### Defnyddioldeb gwefan Ysgogwyr Newid

Roedd cyfranogwyr yn hoffi strwythur y wefan oedd yn seiliedig ar bwnc, a'i dolenni i'r Senedd a llwybrau eraill at newid. Mae hyn yn adleisio cwestiynau blaenorol, lle dynododd myfyrwyr eu bod eisiau rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae gwleidyddiaeth a sefydliadau'n gweithio.

*"Mae o'r ffordd y mae wedi'i fformatio, oherwydd rydych chi'n gallu pwyso ar*

*unrhyw un o'r pynciau ar y brig ac fe welwch am beth maen nhw." [myfyriwr 4].*

**Awgrymiadau ar gyfer gwelliant**

**Hoffter o gynnwys gweledol a rhyngweithiol**

Roedd cyfranogwyr yn gofyn yn barhaus am fideos byr i gyd-fynd gyda chynnwys ysgrifenedig.

*"Dydw i ddim yn un am ddarllen, rwy'n hoffi gwylio ... byddai'n well gan lawer o bobl wylio rhywbeth [am] ddau funud am bwnc." [myfyriwr 1].*

**Ffwythiant Ap a chwilio**

Roedd yna gefnogaeth ar gyfer datblygu'r wefan i fod yn ap ac ychwanegu ffwythiant chwilio er mwyn helpu defnyddwyr oedd yn ansicr ble i ddechrau.

*"Gallai ap fod yn ddefnyddiol hefyd, a botwm chwilio ac yn hytrach na chlicio drwy 'wybod beth yw'r prif bwnc ac yna gwybod ble i ddod o hyd i'r wybodaeth o dan yr isdeitlau, gallai fod bar chwilio pan rydych chi'n dweud, 'rhowch wybodaeth i mi am X." [myfyriwr 5].*

**Traweffaith a thystiolaeth o newid**

Awgrymodd cyfranogwyr ychwanegu ystadegau neu enghreifftiau sy'n arddangos traweffaith.

*"Rwy'n meddwl bod ystadegau'n ddefnyddiol iawn er mwyn i bobl wybod beth yw'r traweffaith mewn gwirionedd." [Myfyriwr 5].*

**C4. Gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

**Mwy o wybodaeth a pherthnasedd**

Cytunodd yr holl gyfranogwyr bod ganddynt nawr fwy o wybodaeth am Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'i nodau. Ystyriwyd bod strwythuro'r rhaglen o amgylch y Ddeddf yn briodol ac yn berthnasol i Gymru.

*"Rwy'n credu bod hynna'n ddefnyddiol oherwydd... dyma beth mae pobl Cymru eisiau anelu tuag ato, ac rwy'n meddwl ei fod yn bwysig ein bod ni hefyd eisiau gwybod gyda beth rydym ni'n alinio." [myfyriwr 5].*

**Meysydd sy'n achosi dryswch**

Roedd rhai nodau (yn arbennig "Cymru Ffyniannus") yn aneglur i ddechrau arni, a chytunodd cyfranogwyr y byddai sesiwn benodol ar y Ddeddf yn gynharach yn y rhaglen wedi bod yn ddefnyddiol.

*"Rwy'n meddwl y byddai wedi bod yn braf cael ychydig mwy o wybodaeth am hynna er hynny. Fel gwers go iawn neu hyd yn oed ddweud beth rydym wedi'i wneud hyd yma, beth ydym ni eisiau ei wneud gyda'r nodau yma?" [myfyriwr 5].*

**C5. Pe baech chi'n gallu newid un peth am yr Academi, beth fyddai hynny?**

Roedd y prif welliannau a awgrymwyd yn cynnwys:

- Cynaliadwyedd amgylcheddol - lleihau'r defnydd a wneir o blastig
- Mwy o gynnwys gweledol, megis fideos
- Fformat y ddarpariaeth - llai a/neu sesiynau ar-lein byrrach
- Mwy o siaradwyr gwadd a mewnbwn gwleidyddol
- Gwell ymwybyddiaeth o staff.

**C6. Sut ddylai'r Academi gael ei hysbysebu yn y dyfodol?**

**Bylchau cyfathrebu**

Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod ymwybyddiaeth o'r Academi'n anwastad. Roedd rhai ond yn clywed amdano drwy sianeli cynrychiolwyr dosbarth. At ei gilydd, roedd myfyrwyr yn teimlo bod yr athrawon yn bwysig ar gyfer hyrwyddo a chael pobl i gofrestru ar ei gyfer.

> *"Pan ofynnais i fy ffrindiau amdano, roedden nhw'n deud, 'dan ni heb glywed am hwn." [myfyriwr 5].*

> *"Derbyniodd llawer o'r cynrychiolwyr dosbarth yr e-bost oherwydd roedd un o fy ffrindiau am ei wneud ac roedd o'n rhy hwyr oherwydd wnaeth o ddim cael yr e-bost". [myfyriwr 2].*

> *"Roedd yr athrawon yn gallu dweud [mae'r myfyrwyr yma wedi'i wneud o] fel ei fod yn rhoi'r cymhelliant yma i bobl feddwl, iawn, dwi'n gwybod fy mod i'n gallu siarad amdano." [myfyriwr 5].*

Llwybrau hyrwyddo a awgrymwyd

- E-byst myfyrwyr cyffredinol
- Porth myfyrwyr
- Sgriniau mawr ar y campws
- Gwasanaethau Ysgol
- Hyrwyddo gan athrawon
- Defnyddio cyfranogwyr blaenorol fel hyrwyddwyr neu fentoriaid.

**Trawstorri adborth**

- Cefnogaeth gref ar gyfer **ymweliadau â'r Senedd** a chyfarfodydd gyda chynrychiolwyr lleol a phobl sy'n gwybod am wleidyddiaeth

- Cymeradwyaeth eglur o **gefnogaeth staff o ansawdd uchel**, yn arbennig felly ar gyfer cyfranogwyr sy'n seiliedig ar brosiectau
- Cefnogaeth ar gyfer **dau lwybr**: llwybr ar-lein sy'n seiliedig ar wybodaeth a llwybr prosiect newid wyneb yn wyneb, mwy dwys.

Mewn perthynas â'r pwynt olaf, fe grynhodd un o'r myfyrwyr fel yma amdano drwy ddweud:

> *"Rwy'n gwybod nad oedd [myfyriwr X] ddim eisiau gwneud y prosiect, doedd ganddi ddim amser, ond roedd hi eisiau dysgu, felly ella y gallai pobl ddod draw i ddysgu, cyn belled ag y bod ganddynt ddigon o bobl yn gwneud y prosiectau eu hunain, ac na fyddai'n rhaid i eraill eu gwneud." [myfyriwr 5].*

> *"Rwy'n medddwl y dylai'r un sydd â mwy o wybodaeth fod ar-lein, ac y dylai'r un sy'n seiliedig ar y prosiect fod fwy wyneb yn wyneb." [myfyriwr 5].*

# Canfyddiadau: adborth gan bartneriaid

Wedi'r Uwchgynhadledd Traweffaith, fe wnaeth staff o dri sefydliad partner Ysgogwyr Newid (dau aelod o staff o Goleg Pen-y-bont ar Ogwr, ddau o'r Brifysgol Agored[3], ac un o Unloc) gyfarfod er mwyn trafod gweithrediad y rhaglen, gyda'r bwriad o ddatblygu'r rhaglen ailadrodd nesaf. Gellir crynhoi'r adborth fel a ganlyn:

**C1. Beth weithiodd yn dda ac na weithiodd cystal o safbwynt sefydliadol?**

At ei gilydd, roedd yr Academi'n cael ei gweld fel cysyniad cryf oedd yn cael budd sylweddol o ddarpariaeth wyneb yn wyneb, ond a oedd yn wynebu heriau ynghylch cyflymder, ymgysylltiad ar-lein, ac eglurder cynnar o ran disgwyliadau. Tynnwyd sylw'n gyson at elfennau wyneb yn wyneb fel un o'r prif gryfderau, yn arbennig o safbwynt adeiladu perthnasoedd, meithrin ymrwymiad, a chefnogi ymgysylltiad cyfranogwyr. Teimlai staff y byddai dwyn cyfranogwyr ynghyd yn gynt - o bosib drwy elfen breswyl - wedi helpu i sefydlu perthnasoedd yn gynt a darparu ymdeimlad mwy eglur o bwrpas a rennir. Roedd gorffen y rhaglen gydag uwchgynhadledd hefyd yn cael ei weld fel ffordd effeithiol o ymgorffori dysgu a dathlu cyflawniadau.

Mewn cyferbyniad, teimlwyd bod yr elfennau ar-lein yn llai llwyddiannus na'r hyn a fwriadwyd. Er eu bod wedi'u bwriadu i fod yn bwynt ymgysylltu er mwyn ychwanegu gwerth, nod oeddent yn cyflawni'r nod hwn yn gyson, yr arbennig felly o safbwynt cyswllt cymdeithasol ac ymgysylltiad cyfranogwyr. Ystyriwyd bod angen ffocws mwy eglur ar y sesiynau ar-lein a fframio cryfach o amgylch eu pwysigrwydd. Roedd dulliau cyfathrebu hefyd yn cyfrif: Tybiwyd bod WhatsApp, yn arbennig felly negeseuon unigol, yn ffordd llawer mwy effeithiol nag e-bost ar gyfer cadw mewn cysylltiad a meithrin ymdeimlad o gymuned. Roedd sesiynau unigol ar-lein/sesiynau sgwrs gyda myfyrwyr yn fwy llwyddiannus ac angen cael eu hamserlennu yn rhan o'r rhaglen o'r cychwyn (er nodwyd pe bai niferoedd cyfranogwyr y rhaglen yn cynyddu, y byddai hyn yn llai cynaliadwy/ac y byddai cost o ran amser ac arian).

Myfyriodd nifer o'r staff ar y ffaith fod y rhaglen wedi dechrau'n arafach na'r hyn a gynlluniwyd, yn rhannol oherwydd ei fod yn golygu "gwerthu cysyniad" yn hytrach na bod yn gynnyrch cwbl weladwy. Roeddent hefyd yn rhannu'r farn y gellid bod wedi gwneud mwy o'r cychwyn cyntaf er mwyn gwneud disgwyliadau'n eglur, yn arbennig felly o safbwynt ymrwymiad o ran amser a sut y byddai cyfranogiad yn cyd-fynd ochr yn ochr ag amserlenni a chyfrifoldebau presennol myfyrwyr. Cafodd ymrwymiad cychwynnol Coleg Pen-y-bont ar Ogwr ei adnabod fel bod yn hanfodol, gyda phosibilrwydd o atgyfnerthu hyn pe bai'n cael ei ailadrodd yn y dyfodol.

Yn olaf, dysgwyd ynghylch gweithio mewn partneriaeth a chydbwysedd cyflawni. Nododd staff y posibilrwydd o dynnu ar gynnwys oedd yn bodoli eisoes ac oedd wedi'i deilwra, gan gydnabod na fyddai pob myfyriwr am ymgysylltu mewn prosiectau newid dwys. Roedd yna hefyd awydd i ledaenu prosiectau'r dyfodol y tu hwnt i ffocws sefydliadol cul, a ffocws ar y prosiectau newid cynharach, go iawn.

**C2. Beth weithiodd yn dda, ac na weithiodd cystal o safbwynt deilliannau?**

O safbwynt deilliannau, teimlai staff bod gan yr Academi botensial eglur i gefnogi pobl ifanc i wneud newid ac i gynyddu ymwybyddiaeth o egwyddorion Cenedlaethau'r Dyfodol, ond y gellid gwreiddio hyn yn fwy beirniadol. Roedd yna gonsensws y gellid bod wedi gwneud cyfeiriadau at Genedlaethau'r Dyfodol ac

3 Gan gynnwys awdur yr adroddiad hwn.

ysgogi newid yn fwy amlwg a chyson drwy gydol y sesiynau, gan ddefnyddio arwyddion gweledol, aliniad thematig a fframio sut roedd gweithgareddau'n cysylltu gyda thraweffaith hirdymor yn fwy eglur. Gwnaed sawl awgrym ymarferol, gan gynnwys creu sesiynau gyda thema o amgylch y nodau, gan integreiddio eiconau yn ddeunyddiau, a darparu awgrymiadau ffisegol syml er mwyn cadw'r fframwaith yn weledol.

Ystyriwyd bod siaradwyr gwadd o safon uchel yn arbennig o effeithiol wrth gyfoethogi dealltwriaeth cyfranogwyr o ddemocratiaeth, pŵer ac ysgogi newid. Roedd sesiynau oedd yn dwyn i mewn ffigyrau o'r byd gwleidyddol neu'r bywyd dinesig ehangach yn cael eu hystyried i fod yn ysbrydoledig ac roedd yn helpu cyfranogwyr i gysylltu syniadau haniaethol gyda chyd-destunau o'r byd go iawn. Yn yr un modd, roedd mynd â dysgu i leoliadau cymunedol neu sefydliadau megis y Senedd - yn ddelfrydol yn gynt yn y rhaglen - yn cael ei weld fel ffordd gref o gymell dysgwyr a gwreiddio eu dysgu.

Ar yr un pryd, fe wnaeth staff adnabod tensiwn rhwng dyfnder prosiectau newid a'r dysgu dinesig a democrataidd ehangach. Gydag amser cyfyngedig, roedd yn rhaid gwneud dewisiadau ynghylch p'un ai i flaenoriaethu darparu prosiect yn ymarferol neu adeiladu gwybodaeth yn ehangach. Roedd peth o'r dysgu creiddiol, yn arbennig felly o amgylch democratiaeth yn cael ei weld fel rhywbeth a fyddai o bosib yn gallu cael ei gyflawni drwy gyfrwng cynnwys oedd yn bodoli eisoes neu gynnwys ar-lein, gan ryddhau amser wyneb yn wyneb ar gyfer gweithgaredd ysbrydoli, trafod ac ysgogi newid. Roedd yna hefyd gydnabyddiaeth bod ymgysylltu gyda phrosiectau newid ddim yn apelio yr un fath i bob myfyriwr.

### C3. Sut ddylai'r rhaglen gael ei hysbysebu os yw'n cael ei phrif-ffrydio?

Os yw'n cael ei phrif-ffrydio, roedd staff yn teimlo y byddai recriwtio angen symud y tu hwnt i negeseuon hyrwyddo eang tuag at ddulliau mwy personol, a chysylltiedig. Er bod cyfathrebiadau darlledu (megis posteri, sgriniau a chynnwys ar y we) yn cael eu hystyried i fod yn ddefnyddiol ar gyfer codi ymwybyddiaeth gefndirol, nid oeddent yn ddigonol ar eu pen eu hunain er mwyn hybu pobl i gofrestru. Ystyriwyd bod anogaeth uniongyrchol gan unigolion ymddiriedig yn hanfodol.

Roedd yna gefnogaeth gref ar gyfer datblygu fideo byr, yn seiliedig ar brofiadau cyfranogwyr y flwyddyn cynllun peilot, er mwyn helpu i newid y cynnig o fod yn gysyniad haniaethol i fod yn gynnyrch gweladwy. Gallai hyn gael ei ddefnyddio gan diwtoriaid cynnydd a staff dysgu wrth drafod cyfleoedd gyda myfyrwyr. Awgrymwyd yn ogystal y gellid gwneud gwell defnydd o adegau pan roedd myfyrwyr eisoes wedi dod ynghyd (er engraifft mewn digwyddiadau eraill).

Sylwodd staff hefyd ar werth posib defnyddio strwythurau sefydliadol oedd yn bodoli eisoes, megis tiwtoriaid cynnydd, rheolwyr a thiwtoriaid cwricwlwm, er mwyn adnabod ac annog myfyrwyr addas. Trafodwyd recriwtio cyfoedion wrth gyfoedion, wedi'i gefnogi o bosib gan bartneriaid fel opsiwn arall addawol ond un a oedd â llawer o ofynion o ran adnoddau.

### C4. Cydbwyso cyfranogiad wyneb yn wyneb ac ar-lein mewn cynnig sydd wedi'i brif-ffrydio

Cytunodd staff y byddai unrhyw fodel sydd wedi'i brif-ffrydio angen cydbwyso cynhwysiant, ansawdd a realiti ynghylch sut roedd myfyrwyr yn ymgysylltu gyda

dysgu. Gofalwyd peidio â gor-amcangyfrif awydd pobl ifanc ar gyfer dysgu ar-lein wedi'i hunangyfarwyddo, yn arbennig felly ymysg myfyrwyr ar lefelau cyflwyniadol, neu oedd â phwysau oedd yn cystadlu. Ystyriwyd bod cynnwys ar-lein yn fwyaf effeithiol pan roedd yn cael ei guradu'n ofalus a'i gysylltu'n eglur gyda'r Academi, yn hytrach na disgwyl i fyfyrwyr weithio'n annibynnol drwy gyrsiau hir neu gyffredinol.

Roedd dull cyfun yn cael ei gefnogi'n eang, gyda nifer o staff yn agored i archwilio dau lwybr: edefyn mwy sylfaenol oedd yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth a dysgu craidd (a allai hefyd fod o gymorth gyda 'dabtlygu'/cyrraedd mwy o fyfyrwyr/sefydliadau), a llwybr mwy dwys oedd yn canolbwyntio ar brosiectau newid. Fodd bynnag, roedd yna bryderon ynghylch dyblygu darpariaeth oedd yn bodoli eisoes yn y coleg, ac ynghylch lefel a fformat deunyddiau dysgu ar-lein presennol.

Roedd datrysiadau a awgrymwyd yn cynnwys datblygu adnoddau ar-lein oedd yn benodol ar gyfer yr Academi, ardal fewngofnodi benodol, neu hyd yn oed ap, ochr yn ochr â darpariaeth wyneb yn wyneb gref. Rhoddwyd y pwyslais ar gadw elfennau ar-lein yn hygyrch, yn bwrpasol, ac yn gefnogol o brofiadau wyneb yn wyneb, yn hytrach na'u sefydlu fel rhywbeth y gellid eu cyfnewid yn llawn a defnyddio a 'churadu' adnoddau a oedd eisoes ar gael, yn hytrach na dechrau o'r newydd.

# Casgliadau ac argymhellion

Mae'r cynllun peilot Newid - Academi Ysgogi Newid Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu tystiolaeth gymhellol o werth arweinyddiaeth strwythuredig sy'n canolbwyntio ar ieuenctid a rhaglenni ysgogi newid o fewn Addysg Bellach. Llwyddodd yr Academi i wella gwybodaeth, hyder a sgiliau ymarferol cyfranogwyr, yn arbennig felly mewn perthynas â gweithredu cymdeithasol a newid cymunedol ar lefel lleol. Roedd hefyd yn arddangos aliniad cryf gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gan gyfrannu at nodau hirdymor ynghylch cyfranogi, tegwch a dinasyddiaeth weithredol.

Un o gryfderau allweddol y rhaglen yw ei gallu i drosi cysyniadau haniaethol megis 'ysgogi newid' a 'cenedlaethau'r dyfodol' yn brofiadau gweladwy, ystyrlon i gyfranogwyr. Profodd y cyfuniad o ddysgu drwy brofiad, gweithgareddau'n seiliedig ar brosiectau, a dod wyneb yn wyneb ag ymarferwyr o'r byd go iawn yn ffordd hynod effeithiol o feithrin hyder a'r awydd i weithredu.

Fodd bynnag, mae'r cynllun peilot hefyd yn tynnu sylw at feysydd i'w mireinio megis cydbwyso dyfnder (gwaith yn seiliedig ar brosiect) gydag ehangder (addysg ddinesig ac addysg wleidyddol), gan wneud y gorau o fformatau cyflawni, a sicrhau eglurder a chysondeb o ran dylunio a chyfathrebu'r rhaglen. Yn ogystal, er bod deilliannau ymgysylltu lleol yn gryf, mae ymgysylltu gyda systemau ymgysylltu gwleidyddol a sefydliadau ehangach yn parhau i fod yn faes sydd angen ei ddatblygu.

Mae maint bach y garfan a'r amserlen werthuso tymor byr yn cyfyngu ar gyffredinolrwydd canfyddiadau, ond mae cysondeb deilliannau positif ar draws sawl ffynhonnell ddata'n awgrymu bod gan fodel yr Academi botensial cryf ar gyfer cael ei ddatblygu, a chynaliadwyedd.

## Argymhellion

**1. Atgyfnerthu strwythur ac eglurder y rhaglen**

- Cyflwyno'r prosiect newid yn gynharach yn y rhaglen, gyda disgwyliadau eglur o'r dechrau'n deg
- Darparu cynllun rhaglen syml, wedi'i strwythuro ar gyfer yr holl gyfranogwyr a staff
- Sicrhau cyfathrebu mwy eglur ynghylch ymrwymiad amser a disgwyliadau.

**2. Gwneud yn fawr o'r model darparu**

- Ailgalibradu darpariaeth wyneb yn wyneb, yn arbennig ar bwyntiau allweddol (dechrau, man canol, a chamau datblygu'r prosiect)
- Ystyried sesiynau ar-lein byrrach neu fwy hyblyg er mwyn gwella hygyrchedd.

**3. Datblygu model dau lwybr**

Creu dau lwybr cyfranogi, a thrwy hynny gynyddu cynhwysiant a pharu gwahanol gymelliadau myfyrwyr yn well:

- Llwybr dysgu (ar-lein, yn canolbwyntio ar wybodaeth, ac sy'n gallu cael ei

ddatblygu)

- Llwybr ysgogwyr newid (yn seiliedig ar brosiect, dwys, wyneb yn wyneb).

**4. Gwella addysg wleidyddol a dinesig**

- Integreiddio cynnwys mwy eglur, a hygyrch ar systemau gwleidyddol yng Nghymru, ar draws y DU ac yn lleol
- Darparu trosolwg niwtral, cyflwyniadol o sefydliadau a phrosesau gwleidyddol (gan ddefnyddio adnoddau'r Brifysgol Agored)
- Defnyddio cyfleoedd i ymgysylltu'n fwy uniongyrchol (e.e. ymweliadau â'r Senedd, cyfarfodydd gyda gwneuthurwyr polisi).

**5. Atgyfnerthu cefnogaeth a thraweffaith y prosiect**

- Darparu cefnogaeth gynharach a mwy strwythuredig ar gyfer cynllunio a chyflawni prosiectau
- Annog prosiectau y tu hwnt i lefel coleg lle mae hynny'n bosib
- Ymgorffori dulliau o fesur a rhoi tystiolaeth o draweffaith.

**6. Gwella ymgysylltu a chyfathrebu**

- Defnyddio sianeli cyfathrebu mwy effeithiol (e.e. WhatsApp neu anfon neges uniongyrchol)
- Cynyddu ymwybyddiaeth fewnol ymysg staff dysgu er mwyn cefnogi ymgysylltiad myfyrwyr
- Mewnosod cefnogaeth un wrth un rheolaidd (yn ddibynnol ar ystyriaethau ehangu).

**7. Gwella adnoddau a hygyrchedd**

- Datblygu deunyddiau dysgu mwy gweledol a rhyngweithiol (e.e. fideos)
- Gwella adnoddau ar-lein (ffwythiant chwilio, ap posib, cynnwys wedi'i guradu)
- Cysylltu adnoddau'n benodol gyda fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol.

**8. Atgyfnerthu recriwtio a dyrchafu**

- Symud at recriwtio cysylltiedig (argymhellion staff, llysgenhadon cyfoedion)
- Datblygu fideo hyrwyddo byr yn arddangos y cynllun peilot
- Defnyddio nifer o sianeli (cynulliadau, porth myfyrwyr, staff dysgu, eiriolwyr alumni).

## Y Camau Nesaf

| Tymor byr (y 6-12 mis nesaf) | Tymor canolig (1-2 flynedd) | Sefydlu'r Academi fel rhaglen gynaliadwy, genedlaethol. |
|---|---|---|
| Mireinio dyluniad y rhaglen yn seiliedig ar ddysgu o'r cynllun peilot. | Datblygu'r ddarpariaeth i golegau Addysg Bellach ychwanegol ar draws Cymru. | Establish the Academy as a sustainable, national programme. |
| Datblygu cwricwlwm wedi'i adolygu, deunyddiau a strwythur cyflawni. | Cyflwyno model llwybr teuluol (llwybrau dysgu ac ysgogi newid). | Wedi'i fewnosod o fewn seilwaith AB ac addysg ddinesig bellach, gan ddefnyddio'r Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| Treialu model darparu gyda charfan ychydig yn fwy. | Datblygu partneriaethau ar gyfer cyfleoedd i ymgysylltu'n wleidyddol (e.e. ymweliadau â'r Senedd). | Datblygu rhwydwaith alumni cryf i gefnogi mentora cyfoedion a recriwtio. |
| Cynhyrchu deunydd hyrwyddo (gan gynnwys astudiaeth achos fideo). | Gwella'r cynllun gwerthuso i gynnwys olrhain traweffaith mwy hirdymor. | Cynhyrchu tystiolaeth hydredol o draweffaith ar ymgysylltiad dinesig, arweinyddiaeth a deilliannau gyrfa. |
| Atgyfnerthu ymgysylltu mewnol gyda staff a rhanddeiliaid. | | |

# Cyfeiriadau


Andreouli, E., Obradović, S., a Mahendran., K. (2024). Citizens in the making: final report. Open Psychology Research Centre. Ar gael yn: https://fass.open.ac.uk/school-psychology-counselling/news/citizens-in-the-making-report?nocache=66aca32ad85cc

Chrisp, J., a Pearce, N. (2021). The age divide in UK politics. Ar gael yn: https://www.bath.ac.uk/publications/the-age-divide-in-uk-politics/attachments/the-age-divide-in-uk-politics.pdf

Dhesi, M. (2022). The Welsh Voter Problem. Sefydliad Materion Cymreig Ar gael yn: https://www.iwa.wales/agenda/2022/05/the-welsh-voter-problem/

Foster, C. (2021). Young people and political engagement in Wales. Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru. Ar gael yn: https://wiserd.ac.uk/blog/young-people-and-political-engagement-in-wales/

Foster, C., Arman, L., a Power, S. (2022), Growing up in Wales: the pandemic and beyond | Evidence from the WISERD Education Multi-Cohort Study. Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru. Ar gael yn: https://wiserd.ac.uk/publication/growing-up-in-wales-the-pandemic-and-beyond-evidence-from-the-wiserd-education-multi-cohort-study/

Moore, D., Seargeant, P., a Smith, D. (2022). Citizens' voices, people's news: making the media work for Wales. An IWA report, in partnership with The Open University in Wales. Y Sefydliad Materion Cymreig. Ar gael yn: https://www.iwa.wales/our-work/work/citizens-voices-media-wales-report/

Moore, D. (2023). Building Bridges: Wales' democracy now, and for our future. Y Sefydliad Materion Cymreig. Ar gael yn: https://www.iwa.wales/our-work/work/building-bridges-wales-democracy-now-and-for-our-future/

Smith, D., a Hewitt., J. (2025). Changemakers: Improving young people's understanding of making political and social change in Wales. Ar gael yn: https://university.open.ac.uk/wales/sites/www.open.ac.uk.wales/files/files/Changemakers_Improving%20young%20people's%20understanding%20of%20making%20political%20and%20social%20change%20in%20Wales_November%202024_FINAL_EN.pdf

Y Comisiwn Etholiadol. (2022). Young voters in Wales need more support to engage in elections. Ar gael yn: https://www.electoralcommission.org.uk/media-centre/young-voters-wales-need-more-support-engage-elections

Uberoi, E., a Johnston, N. (2022). Political disengagement in the UK: Who is disengaged? House of Commons Library. Ar gael yn: https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-7501/CBP-7501.pdf

Uberoi, E. (2023). Turnout at elections. Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. Ar gael yn: https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-8060/CBP-8060.pdf

Llywodraeth Cymru (2025). Datganiad Ysgrifenedig: Y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth. Ar gael yn: https://www.gov.wales/written-statement-innovating-democracy-advisory-group